

NEW COLLEGE

UNIVERSITY OF OXFORD



# CROESO I GOLEG NEWYDD

Wedi ei sefydlu yn 1379, Coleg Newydd yw un o golegau mwyaf Rhydychen. Mae gennym boblogaeth o tua 420 o israddedigion yma, ac mae tir y coleg yn helaeth. Mae'r ffactorau yma yn cyfuno i gynnig awyrgylch gymdeithasol fywiog ac amrywiol, wedi'i nythu o fewn gerddi prydferth ac adeiladau rhyfeddol- a'r holl beth dim ond dwy funud ar droed o ganol Rhydychen.

Y peth cyntaf y dylech ei wybod am Goleg Newydd yw ein bod ni'n gymuned. Yma, cewch ddarganfod pobl sydd am sicrhau eich bod yn cael y profiad prifysgol gorau posib.

**Anelwn at wneud i Goleg Newydd deimlo fel eich cartref oddi wrth gartref.**



1 Cwad Blaen

2 JCR

3 Y Gerddi a'r Domen

4 Adeiladau Newydd


5 Llyfrgell


6 Bar

7 Neuadd Fwyta

8 Y Capel a'r Clwystai

9 Cwadrangl Gradel a Stiwdios Cerddoriaeth Clore







# CWAD BLAEN

Y cyntaf o'i fath, mae'r Cwad Blaen yn arloesol yn ei ddyluniad, ac yn cynnwys y Neuadd Fwyta, Capel, Clwystai, a Llety'r Warden (Pennaeth y Coleg). Mae gan nifer o'n tiwtoriaid swyddfeydd yma hefyd, felly efallai byddwch yn mynychu ambell diwtorial yn y Cwad Blaen.

Dyma ble mae eich taith o amgylch Coleg Newydd yn dechrau. Gwelwch fwa o'ch blaen- wrth gerdded trwyddo fe welwch y **JCR**.

# JCR

Ystyr **JCR** yw 'Junior Common Room', ac mae'n ardal ymlaciol i israddedigion gael treulio amser hamdden. Mae gan y JCR llawer i'w gynnig- gan gynnwys teledu 4K gyda Sky+ (a Netflix), PS4, Wii, bwrdd snwcer, tenis bwrdd, pêl-droed bwrdd, cegin fach gyda the a choffi, soffas cyfforddus, ac unrhyw beth arall y byddai angen arnoch i ymlacio.

Mae ein pwyllgor myfyrwyr (a elwir hefyd yn JCR) yn chwarae rhan ganolog ym mywyd y Coleg; boed hynny drwy drefnu gweithgareddau cymdeithasol, cynnal digwyddiadau lles ar gyfer myfyrwyr, neu sicrhau bod crwban y Coleg, Tessa, yn parhau i fyw bywyd braf.

Mae yna sawl ffordd i gymdeithasu yn y Coleg, ar wahân i dreulio amser yn y JCR. Mae nosweithiau Meic Agored a Karaoke yn cymryd lle ym **Mar y Coleg** hyd at deirgwaith pob tymor. Mae Bops (partïon gwisg ffansi) hefyd yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn.

Yn ogystal, mae yna ystod eang o gymdeithasau Coleg ar gyfer myfyrwyr, megis Cantorion Holywell (ein côr di-glyweliad) a Chymdeithas Ddrama Coleg Newydd. Mae timau chwaraeon y Coleg yn cynnwys pêl-droed, rhwyfo, rygbi, tenis, pêl-rwyd, hoci, lacrosse, badminton, pêl-fasged, sboncen, rownderi, a llawer mwy.





# Y GERDDI A'R DOMEN

Mae **Cwad yr Ardd** yn ymestyn allan i'n gerddi helaeth. Wrth ddal llygad yr haul yn yr haf, mae'r gerddi yn cynnig hafan heddychlon i fyfyrwyr Coleg Newydd.

Yn eistedd yn falch yng nghanol popeth mae un o nodweddion mwyaf trawiadol Coleg Newydd, y Domen, a adeiladwyd yn y 16eg ganrif.

Mae Coleg Newydd hefyd yn gartref i ddarn o wal ganoloesol y ddinas, ac mae ei gyflwr yn eithriadol o dda. Gyda thros bedair acer o fannau gwyrdd, ac yn gartref i 27 rhywogaeth o adar, mae gerddi Coleg Newydd yn werddon annisgwyl yng nghalon y ddinas.

Nid yw'n syndod, felly, bod y Coleg yn safle ffilmio poblogaidd! Ffilmiwyd *Mamma Mia 2* yn ein Neuadd, defnyddiodd *His Dark Materials* y Coleg ar gyfer lleoliad 'Jordan College', a chafodd Draco Malfoy ei hun ei droi yn ffured wen yn ein Clwystai (o *Harry Potter and the Goblet of Fire*).

Mae byw ar set ffilm yn un o nifer o fanteision o fod yn fyfyriwr yng Ngholeg Newydd!



# ADEILADAU NEWYDD

Rydym ni'n gwybod bod symud i ffwrdd o gartref yn medru bod yn gyfnod anodd, felly rydym yn helpu ein myfyrwyr newydd i setlo drwy eich rhoi yn yr un adeilad ar brif safle'r Coleg. Bydd hyn yn eich helpu i wneud ffrindiau yn sydyn, ac ymhen dim byddwch yn dechrau teimlo bod eich ystafell yma fel cartref oddi cartref.

Gan fod y Coleg wedi ei sefydlu yn 1379, fe wnewch chi sylweddoli'n fuan nid yw'r rhan fwyaf o'n hadeiladau yn 'newydd' iawn! Yn yr 'Adeiladau Newydd' (a adeiladwyd yn y 19eg ganrif…) y byddwch chi a gweddill myfyrwyr y flwyddyn gyntaf yn byw.

Mae gan y mwyafrif o'n hystafelloedd gyfleusterau ensuite- i'r gweddill, gyda dim ond un neu ddau o fyfyrwyr eraill bydd yn rhaid i chi rannu'r ystafell ymolchi.

Yn y flwyddyn gyntaf, rydym yn neilltuo ystafelloedd ar hap, ac yn gweithredu ar system falot deg ar ôl hynny; os oes gennych ystafell fach yn y flwyddyn gyntaf, cewch ddewis cyntaf ar gyfer llety'r ail flwyddyn. Rydym ni'n trin pawb yn deg yma yng Ngholeg Newydd.

Mae pob ystafell yn cynnwys gwely, desg, cwpwrdd dillad, lampau, ac oergell.









# LLYFRGELL & MANNAU ASTUDIO

Mae ein Llyfrgell (wedi'i leinio gyda phaneli pren hyfryd) ar agor o 8yb tan 2yb, ac yn cynnig dros 100,000 o destunau. Yn ogystal â desgiau traddodiadol, mae nifer o ystafelloedd ar gael ar gyfer gwaith grŵp, felly gallwch astudio ym mha bynnag fodd sy'n eich siwtio chi.

Mae'r Llyfrgell yn cynnwys y rhan fwyaf o'r testunau cyffredin y bydd angen arnoch ar gyfer eich cwrs ac mae wedi'i ei lleoli dim ond eiliadau i ffwrdd o lety'r flwyddyn gyntaf, sy'n ei wneud yn ardal gwaith hynod o gyfleus.

Os nad ydych chi'n hoff o fynd i'r llyfrgell, mae'r North Undercroft yn le mwy ymlaciol i astudio. Mae'n ysgafn braf yno, ac mae'n man boblogaidd gyda myfyrwyr sydd yn ffafrio sesiynau astudio mwy rhyngweithiol a sgyrsiol.

Draw yn y Cwadranglau Gradel, gall myfyrwyr trydedd flwyddyn ddefnyddio'r man astudio arbennig sydd yno. Ac, wrth gwrs, os oes gwell gennych i weithio yn eich ystafell mi fedrwch wneud hynny hefyd. Yng Ngholeg Newydd, mae digon o opsiynau gennych i astudio fel y mynnoch.



# BAR

Rydym yn gwybod bydd eich bywyd cymdeithasol yn rhan bwysig o'ch amser yng Ngholeg Newydd.

Mae llawer o'n gweithgareddau cymdeithasol yn cymryd lle yn ardal y bar, sydd wedi ei addasu o'r seler gwrw 14eg ganrif a oedd yno yn wreiddiol.

Boed yn gwis dafarn hamddenol, gêm o ddarts, neu ddechrau eich noson allan mewn steil; mae gan y Bar yng Ngholeg Newydd bopeth bydd angen arnoch i fwynhau eich amser hamdden.







# NEUADD FWYTA

Ein Neuadd Fwyta ni yw'r hynaf a'r talaf o holl neuaddau bwyta Rhydychen a Chaergrawnt, sy'n ei wneud yn lle hynod arbennig i fwyta eich prydau. Efallai eich bod chi'n ei hadnabod o *Mamma Mia 2: Here We Go Again!*

Mae'r system dalu wedi'i gynnal fel menter nid-er-elw i gadw costau eich prydau'n isel. Mae yna wastad nifer o opsiynau gwahanol ar gael ac mae ein cogyddion yn brofiadol iawn wrth ymdrin ag anghenion dietegol, o bob math o alergeddau i ddarpariaeth grefyddol.

Caiff swperau ffurfiol hefyd eu cynnal pob wythnos. Mae'n brofiad i gael rhywun yn gweini arnoch a chael profi gwledd Rhydychen 'traddodiadol' (gan wisgo'ch gŵn, wrth gwrs!). Maent yn gwbl opsiynol - os fyddai'n well gennych chi gael swper cyffredin yn eich tracwisg, mae hynny'n iawn hefyd!

Rhywbeth hollbwysig yw'r teimlad o gymuned a geir wrth fwyta yma gyda'ch cyd-fyfyrwyr. Mae'r mwyafrif o'r myfyrwyr sy'n byw yn y Coleg yn cofrestru'n awtomatig ar gyfer swper, gan ei wneud yn ganolbwynt gwych i orffen y dydd - yn gyfle i bawb ddod at ei gilydd ar ôl astudio er mwyn ymlacio, bwyta, a chymdeithasu gyda ffrindiau. Mae brecwast a chinio hefyd ar gael, wrth gwrs!

# Y CAPEL A'R CLWYSTAI

Mae Capel y Coleg a'r Clwystai ymysg adeiladau gwreiddiol y Coleg, a chânt eu dyddio nôl i'r 14eg ganrif. Er bod y Capel dal yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd ar gyfer gwasanaethau, mae'r Capel a'r Clwystai yn cynnig lle prydferth a thawel i fyfyrwyr gael crwydro, meddwl, ac adlewyrchu – dim ots eu ffydd.

Mae'r Capel hefyd yn cynnal perfformiadau cerddorol rheolaidd gan fyfyrwyr, cerddorion lleol, a chôr byd-enwog Coleg Newydd.

Yn yr un modd, mae'r Clwystai yn cael eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol fel derbyniadau diodydd, a dyma ble gewch chi dderbyn eich tystysgrif pan fyddwch yn graddio. Maent mor brydferth cawsant eu cynnwys yn ffilmiau Harry Potter!

Mae cymuned Coleg Newydd yn un sy'n **dathlu amrywiaeth o bobl o bob cefndir**, ac un o fanteision bod yn rhan o goleg mawr yw eich bod yn fwy tebygol o ddarganfod pobl sy'n debyg i chi. Rydym yn un o'r ychydig o golegau sydd yn cynnig **Ystafell Weddi Fwslimaidd** benodol, sy'n cynnwys daliwr esgidiau a sinc. Mae gan ein myfyrwyr cynrychiolwyr ('Reps') sydd yn hyrwyddo hawliau ac yn dathlu grwpiau lleiafrifol.

Mae gennym dîm o bobl i helpu unrhyw un sydd yn profi unrhyw anawsterau neu broblemau, boed hynny'n academaidd neu'n bersonol. Bydd ein tîm o staff llesiant a myfyrwyr sydd wedi eu hyfforddi fel cefnogwyr cyfoedion yn gwneud eu gorau i'ch cefnogi.





# CWADRANGLAU GRADEL

Mae'r rhan fwyaf o'n myfyrwyr yn eu trydedd flwyddyn yn byw yn y Cwadranglau Gradel. Agorwyd y safle modern, newydd sbon ym mis Ebrill 2024, dim ond cwpwl o funudau i ffwrdd ar droed o brif safle'r Coleg.

Mae'r Cwadranglau Gradel hefyd yn cynnwys man astudio fodern a lleoliad perfformio amlbwrpas ar gyfer y celfyddydau mynegiannol. Mae gan bob ystafell wely gyfleusterau ensuite ac mae'r ceginau yn cynnig man arall i'n myfyrwyr i gymdeithasu- yn ogystal â chynnig cyfle i berffeithio eich sgiliau coginio!

Os ydych chi'n fyfyriwr yng Ngholeg Newydd, cewch felly'r cyfle i fyw ac astudio mewn adeiladau o'r 14eg a'r 21ain ganrif!









# STIWDIOS CERDDORIAETH CLORE

Mae Stiwdios Cerddoriaeth Clore yn wych, a chaiff holl fyfyrwyr y Coleg eu defnyddio. Ond ambell funud o brif safle'r Coleg, maent yn cynnwys saith ystafell ymarfer wrthsain gyda phiano yn y mwyafrif ohonynt.

Os ydych yn gerddorol, bydd llu o gyfleoedd ar gael i chi feistroli eich crefft.

# MAES CHWARAE WESTON





# 10 RHESWM I DDEWIS COLEG NEWYDD

**1**

**Cymorth i fyfyrwyr**
Mae ein tîm o staff cymorth yma i'ch helpu i lwyddo

**2**

**Lleoliad**
Rydym yn ganolog iawn, gyda phob adeilad y Brifysgol ond munudau i ffwrdd ar droed

**3**

**Bwyd**
Tri phryd y dydd heb angen golchi lan?! Ie plîs!

**4**

**Llety**
Cewch fyw mewn adeilad o'r 14eg ganrif un flwyddyn ac un o'r 21ain ganrif y flwyddyn nesaf

**5**

**Bywyd cymdeithasol**
Amryw o gyfleoedd i gael digon o hwyl!

**6**

**Ystod eang o bynciau**
Golyga hyn fe gewch gyfle i wneud amryw o wahanol ffrindiau

**7**

**Maint**
Rydym ni'n falch iawn o'n maint a'n harddwch!

**8**

**Cefnogaeth gyrfa**
Byddwn yma i helpu wrth i chi baratoi am y cam nesaf

**9**

**Cynaliadwyedd a mannau gwyrdd**
Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i wella'n hamgylchedd a'r gymuned leol

**10**

**Ffilm a theledu**
Pwy sydd ddim eisiau esgus bod yn Mamma Mia 2?!



# CYRSIAU (RHIF CYFARTALOG O LEFYDD AR GAEL)

Dyma'r holl gyrsiau sydd ar gael yng Ngholeg Newydd ar hyn o bryd.
Am fwy o fanylder ar y wybodaeth isod, ewch i wefan Coleg Newydd.
Gwnewch yn siŵr i gynghori gwefan y Coleg ar gyfer rhestr lawn ein Cyrsiau Israddedig.

**Astudiaethau Asiaidd a'r Dwyrain Canol (Arabeg) (3)**

**Biocemeg (Moleciwlaidd a Chellog) (4)**

**Bioleg (6)**

**Gwyddorau Biofeddygol (4)**

**Cemeg (9)**

**Y Clasuron (Sengl a Chyd-Anrhydedd) (6)**

- Y Clasuron: Cwrs 1
- Y Clasuron: Cwrs 2
- Y Clasuron a Ieithoedd Modern
- Y Clasuron ac Astudiaethau Asiaidd a'r Dwyrain Canol (Arabeg)

**Economeg a Rheolaeth (3)**

**Gwyddorau Peirianneg (10)**

**Saesneg (Sengl a Chyd-Anrhydedd) (9)**

- Saesneg Iaith a Llenyddiaeth
- Saesneg a Ieithoedd Modern

**Celfyddyd Gain (2)**

**Hanes (Sengl a Chyd-Anrhydedd) (9)**

- Hanes Hynafol a Modern
- Hanes
- Hanes ac Economeg
- Hanes a Ieithoedd modern
- Hanes a Gwleidyddiaeth

**Y Gyfraith (8)**

- Y Gyfraith
- Y Gyfraith ag Astudiaethau'r Gyfraith yn Ewrop

**Mathemateg, Cyfrifiadureg (Sengl a Chyd-Anrhydedd) (8)**

- Cyfrifiadureg
- Cyfrifiadureg ac Athroniaeth
- Mathemateg
- Mathemateg a Chyfrifiadureg
- Mathemateg ac Athroniaeth
- Mathemateg ac Ystadegaeth

**Meddygaeth (6)**

**Ieithoedd Modern (Sengl a Chyd-Anrhydedd) (13)**

- Ieithoedd Modern
- Ieithoedd Ewropeaidd a'r Dwyrain Canol
- Ieithoedd Modern a Ieithyddiaeth
- Athroniaeth a Ieithoedd Modern

**Cerddoriaeth (4 neu 5)**

**PPE (Gwleidyddiaeth, Athroniaeth, ac Economeg) (10)**

**Ffiseg (6)**

**Seicoleg (Arbrofol) ac SAI (5)**

- Seicoleg (Arbrofol)
- Seicoleg, Athroniaeth, a Ieithyddiaeth (PPL)



# CYSYLLTWCH Â NI

admissions@new.ox.ac.uk
@newcollegeoxford
@newcollegeoxford
@NewCollegeOx
@newcollegeoxford
New College, Oxford
01865 279272
www.new.ox.ac.uk

NEW COLLEGE
UNIVERSITY OF OXFORD

